**Pennaeth / Headteacher: Miss N Downes**
**Ffôn / Tel: (01443) 670 319**
**E:-Bost / E:-Mail: admin@yggtonyrefail.rctcbc.cymru**

**Llythyr at Rieni a Gofalwyr ar Achlysur Fy Ymddeoliad**

Annwyl Rieni a Gofalwyr,

Wrth ysgrifennu'r llythyr hwn ar fy niwrnod olaf fel Pennaeth Ysgol Gynradd Gymraeg Tonyrefail, mae'n anodd dod o hyd i'r geiriau i fynegi beth mae'r ysgol a'r gymuned, wedi ei olygu i mi dros y 38 mlynedd diwethaf.

Pan gyrhaeddais YGG Tonyrefail fel athro newydd gymhwyso, ni allwn erioed fod wedi dychmygu y byddwn mor ffodus â threulio fy ngyrfa gyfan yma. O'm diwrnod cyntaf yn yr ystafell ddosbarth, drwy fy mlynyddoedd fel Dirprwy Bennaeth ac wedyn fel Pennaeth, mae'r ysgol hon wedi bod fel ail gartref i mi. Roeddwn yn ffodus iawn o gael swydd yn YGG Tonyrefail yr holl flynyddoedd hynny yn ôl, a chan fy mod mor hapus yma penderfynais aros ar hyd fy ngyrfa.

Un o'r pethau yr wyf wedi eu trysori fwyaf yw'r ymdeimlad cynnes o gymuned a pherthyn sy'n gwneud ein hysgol mor arbennig. Mae YGG Tonyrefail wastad wedi bod yn llawer mwy nag ysgol; mae wedi bod yn deulu. Dros y blynyddoedd, rwyf wedi cael y fraint o ddysgu llawer ohonoch fel plant, ac wedyn, flynyddoedd yn ddiweddarach, croesawu eich plant chi drwy ddrysau'r ysgol. Mae hynny'n brofiad prin a gwerthfawr iawn, ac yn un y byddaf yn ei drysori am byth.

Hoffwn estyn fy niolch diffuant i'r holl rhieni a gofalwyr am eich cefnogaeth dros y blynyddoedd. Mae addysg yn bartneriaeth, ac mae popeth yr ydym wedi ei gyflawni gyda'n gilydd wedi bod yn bosibl oherwydd y berthynas gref rhwng y cartref a'r ysgol. Mae eich cefnogaeth wedi golygu cymaint i mi, i'n staff ac, yn bwysicaf oll, i'r plant.

Wrth imi ffarwelio, gwn y byddaf yn hiraethu am nifer o bethau. Byddaf yn gweld eisiau'r plant, eu hiwmor, egni a'u brwdfrydedd. Byddaf yn colli'r staff dawnus ac ymroddedig sy'n gweithio mor galed dros ein disgyblion ac sy'n gwneud YGG Tonyrefail yn le mor arbennig. Byddaf hefyd yn colli fy sgyrsiau dyddiol gyda rhieni a gofalwyr wrth giât yr ysgol bob bore, yn clywed eich newyddion, ac yn teimlo'r ymdeimlad cryf hwnnw o berthyn sydd wrth galon cymuned yr ysgol. Fodd bynnag, os wyf yn gwbl onest, mae un peth na fyddaf yn ei golli o gwbl — sef sefyll wrth y giât yn y glaw!

Nid oes unrhyw Bennaeth yn llwyddo ar ei phen ei hun, hoffwn ddiolch yn arbennig i Miss Hughes a Mrs Murphy am eu cymorth. Rwyf wedi bod yn hynod ffodus i weithio ochr yn ochr â chydweithwyr ymroddedig a gofalgar. Mae eu cyfraniad i fywyd YGG Tonyrefail wedi bod yn enfawr, a byddaf yn gweld eu heisiau yn fawr.

Rwyf wedi cael y fraint o ddilyn tri Phennaeth arbennig: Miss Betsi Griffiths, a roddodd fy nghyfle cyntaf i mi yn yr ysgol; Mrs Preece (Mrs Thomas); a Mr Rees. Fe wnaeth pob un ohonynt bwysleisio pwysigrwydd rhoi teulu, cymuned a gofal wrth galon popeth a wnawn. Dysgon nhw i mi fod ysgolion yn cael eu hadeiladu ar berthnasoedd, a bod y gweithredoedd bychain o garedigrwydd yn aml yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf. Mae athroniaeth yr ysgol yn adlewyrchu geiriau Dewi Sant: "Gwnewch y pethau bychain." Mae'r geiriau hynny wedi fy arwain drwy gydol fy ngyrfa ac maent mor berthnasol heddiw ag y buont erioed.

Hoffwn hefyd fynegi fy niolch diffuant i'r Corff Llywodraethol ac, yn arbennig, i'r holl Gadeiryddion , am eu harweiniad a'u cefnogaeth dros y blynyddoedd. Mae eu hymrwymiad i'r ysgol a'i gwerthoedd wedi bod yn amhrisiadwy, ac rwyf wedi bod yn ffodus i weithio gyda phobl mor ymroddedig.

Cyn cloi, hoffwn hefyd fynegi fy ngwerthfawrogiad am yr holl anrhegion ymddeoliad hynod o hael a dderbyniais gan rieni a theuluoedd. Roedd y fas hardd a gomisiynwyd yn anrheg unigryw ac ystyrlon iawn sy'n crynhoi cymaint o hanes ac ysbryd YGG Tonyrefail, a bydd ganddi le arbennig iawn yn fy nghartref bob amser. Rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn am y taleb anrheg hael. Byddaf yn trysori'r anrhegion hyn fel atgofion parhaol o gymuned sydd wedi golygu cymaint i mi drwy gydol fy ngyrfa.

Wrth imi adael, gwnaf hynny gyda chalon llawn diolchgarwch a balchder. Rwy'n falch o'r hyn rydym wedi ei gyflawni gyda'n gilydd, yn falch o'r cenedlaethau o blant sydd wedi pasio drwy gatau'r ysgol, ac yn falch fy mod wedi treulio fy ngyrfa gyfan ym maes addysg Gymraeg. Mae gweld yr holl blant yn datblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus ac yn lysgenhadon dros ein hiaith a'n diwylliant wedi bod yn fraint ac yn uchafbwynt mwyaf fy 38 mlynedd yn YGG Tonyrefail.

Er na fyddaf bellach yn rhan o Deulu Ton o ddydd i ddydd, bydd Teulu Ton bob amser yn rhan ohonof fi. Bydd yr atgofion, y cyfeillgarwch a'r profiadau a brofais yn ystod fy ngyrfa yn aros gyda mi am byth.

Yn olaf, hoffwn ddymuno pob llwyddiant a hapusrwydd i Mr Lewis wrth iddo ddechrau ar ei daith fel Pennaeth YGG Tonyrefail. Gwn y bydd yn cael croeso cynnes gan y plant, y staff, y rhieni a'r gymuned ehangach, ac rwy'n hyderus y bydd yr ysgol yn parhau i fynd o nerth i nerth dan ei arweinyddiaeth tra'n glynu'n gadarn wrth y gwerthoedd a'r ethos teuluol sy'n gwneud Teulu Ton mor arbennig.

Diolch o galon a dymuniadau gorau i'r dyfodol,

Miss Downes